



HEDDLU DE CYMRU
DOGFEN BOLISI AR GYFER DEFNYDDIO TECHNOLEG
ADNABOD WYNEBAU BYW YN AGORED

Marcio amddiffynnol:	Swyddogol
Cynllun cyhoeddi Oes/Nac oes:	Nac oes
Teitl:	Dogfen bolisi ar gyfer defnyddio technoleg Adnabod wynebau byw yn agored
Fersiwn:	Fersiwn 1.0
Crynodeb:	Canllawiau i Heddlu De Cymru ar Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw.
Adran:	Is-adran Gwasanaethau Digidol
Dyddiad adolygu:	11/11/2021

Rheoli newid:

Fersiwn	Dyddiad	Awdurdod	Tystiolaeth o gymeradwyo	Cofnod o newid
0.1	30.03.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Drafft Cychwynnol
0.2	14.06.2021	Adolygiad Uwch-dîm Rheoli'r Is-adran Gwasanaethau Digidol	Y Prif Uwch-arolygydd Simon Belcher	Mân Ddiwygiadau
0.3	04.11.2021	Trosolwg o'r Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Mân Ddiwygiadau
0.4	09.11.2021	Adolygiad Uwch-dîm	Y Prif Uwch-arolygydd Simon Belcher	Dim Diwygiadau

		Rheoli'r Is- adran Gwasanaethau Digidol		
1.0	11.11.2021	Adolygiad yr Uwch- Swyddog Cyfrifol	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis	Dim Diwygiadau

Cynnwys

1	Cyflwyniad, Nod a Chwmpas	3
2	Terminoleg	5
3	Trosolwg o Faes Adnabod Wynebau Byw	10
4.	Bwriad Strategol, Amcanion a'r Achos dros Ddefnyddio'r Dechnoleg	13
5.	Trosolwg o Brosesau Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw	16
6.	Llywodraethu, Goruchwyliaeth ac Asesiadau Effaith	18
7.	Cyrff Goruchwyllo a'r Fframwaith Rheoleiddio	23
8.	Ymgysylltu â'r Cyhoedd.....	25
9.	Ystyriaethau o ran y Rhestr Wyllo	27
10.	Canllawiau Dylunio ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw	30
11.	Camerâu a Gosod Camerâu	31
12.	Metrigau Perfformiad Allweddol	32
13.	Crynodeb o'r Canllawiau ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw	34
14.	Acronymau a ddefnyddir ym maes adnabod wynebau byw	35

Termau a Diffiniadau: Bydd i dermau mewn priflythrennau a ddefnyddir yn y Ddogfen Ganllaw hon ar Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw yr ystyr a roddir iddynt yn adran 3 o'r ddogfen hon oni chânt eu diffinio fel arall.

1 Cyflwyniad, Nod a Chwmpas

Cyflwyniad

- 1.1 Mae Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn helpu Heddlu De Cymru i ddod o hyd i bobl y mae'n chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau ac yn helpu i ddiogelu'r unigolion hynny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Ceir rhagor o fanylion am y ffordd y mae technoleg adnabod wynebau byw yn gweithio a sut mae Heddlu De Cymru yn ei defnyddio yn adran 4 (Trosolwg o Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw).
- 1.2 Mae'r Ddogfen Ganllaw hon ar Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw yn rhoi cyngor i bersonél Heddlu De Cymru ar ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn agored mewn modd moesegol sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn i Heddlu De Cymru allu cyflawni nodau plismona dilys.
- 1.3 Mae Heddlu De Cymru hefyd yn ymwybodol o farn ac ystyriaethau parhaus y Comisiynydd Gwybodaeth, y Comisiynydd Biometreg a'r Comisiynydd Camerâu Gwylriadwriaeth ac mae wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu canllawiau cenedlaethol a chod ymarfer sy'n ymwneud â thechnoleg adnabod wynebau byw a'r defnydd a wneir ohoni gan Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith yn y DU.

Nod a Chwmpas

1.4 Nod y canllawiau hyn yw: -

- a) rhoi gwybodaeth i bersonél Heddlu De Cymru ac aelodau o'r cyhoedd am amcanion strategol, gweithredol a thechnegol presennol Heddlu De Cymru ar gyfer defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn agored, fel bod Heddlu De Cymru yn gallu cyflawni ei ddibenion gorfodi'r gyfraith a'i fod yn cydymffurfio ag argymhellion allweddol (yr Amcanion);
- b) rhoi canllawiau i bersonél Heddlu De Cymru ar y Defnydd agored o dechnoleg adnabod wynebau byw gan Heddlu De Cymru mewn mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd er mwyn cyflawni amcanion Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw;
- c) sefydlu'r strwythur llywodraethu ar gyfer Defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, gan sicrhau bod defnydd Heddlu De Cymru o'r dechnoleg yn cael ei reoli'n briodol a'i fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- d) darparu trosolwg o dechnoleg adnabod wynebau byw a rhoi cyngor ar faterion ymarferol megis dewis a gosod camerâu er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau gan y system adnabod wynebau byw.

Heb ei Gwmpasu

- 1.5 Mae mathau eraill o dechnoleg adnabod wynebau nad yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â nhw. Mae hyn yn cynnwys Adnabod Wynebau Ôl-weithredol, sy'n ymwneud â chwilio delweddau yn erbyn cronfa ddata nad yw'n digwydd mewn amser real. Mae Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr (OIFR) lle mae swyddog yn tynnu llun o unigolyn gan ddefnyddio dyfais symudol ac yn ei gyflwyno er mwyn cynnal chwiliad ar unwaith, hefyd y tu hwnt i gwmpas y

canllawiau hyn. Mae hyn yn dal i fod yn gwbl wahanol i dechnoleg adnabod wynebau byw am fod gweithredwr dynol wedi penderfynu cyflwyno Delwedd Chwilota benodol i'w dadansoddi.

1.6 I grynhoi, nid yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r canlynol:-

- a) gweithgarwch adnabod wynebau â llaw ar gyfer chwilio delweddau fideo / delweddau llonydd yn ôl-weithredol; na
- b) chwiliad wynebau a gychwynnir gan unigolyn a gyflwynir o ddyfais symudol yn agos at amser real; nac
- c) unrhyw ddefnydd gan Heddlu De Cymru o systemau adnabod wynebau byw trydydd parti, na gweithgarwch rhannu data er mwyn hwyluso'r defnydd o'r systemau hynny. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai angen ystyriaethau ychwanegol o ran preifatrwydd (e.e. Cytundebau Rhannu Gwybodaeth ychwanegol a gofynion ychwanegol o ran archwilio), sydd y tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn; nac
- d) y fframwaith cyfreithiol sy'n gymwys i ddefnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau byw – manylir ar y fframwaith hwn ar wahân yn nogfen Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru.

Dogfennau Ychwanegol

1.7 Mae sawl dogfen ar gael i ategu'r canllawiau hyn, gan gynnwys:-

- a) Gweithdrefn Weithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw
- b) Asesiad Heddlu De Cymru o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw
- c) Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru i Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw
- d) Dogfennau Polisi Priodol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw
- e) Asesiad Heddlu De Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw
- f) Dogfennau Hyfforddi a Chanllawiau i Ddefnyddwyr Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw

2 Terminoleg

- 2.1 Yn Heddlu De Cymru ac yn holl ddogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebâu byw, mae'r termau a'r diffiniadau canlynol yn gymwys mewn perthynas ag Adnabod Wynebâu Byw:-

Dyfarniad

Asesiad gan unigolyn o rybudd a gynhyrchir gan y rhaglen Adnabod Wynebâu Byw (LFR) gan Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebâu Byw (gyda chymorth y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebâu Byw, fel y bo angen) er mwyn penderfynu a oes angen Ymgysylltu ymhellach â'r unigolyn sy'n cyfateb i ddelwedd ar restr wyllo. Wrth ymgymryd â'r broses Ddyfarnu, rhoddir ystyriaeth i ffactorau sy'n ymwneud â'r testun, y system a ffactorau amgylcheddol.

Gweinyddwr

Unigolyn sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig y mae ganddo hawliau i ddefnyddio'r rhaglen Adnabod Wynebâu Byw er mwyn cynnal ei gallu gweithredol a chael y budd gorau posibl ohoni.

Hysbysiadau

Rhybudd a gynhyrchir gan y rhaglen Adnabod Wynebâu Byw pan fydd delwedd o wyneb o'r ffrwd fideo, a gaiff ei chymharu yn erbyn y Rhestr Wyllo, yn dangos sgôr cymharu (tebygrwydd) uwchlaw'r Trothwy.

Rhybudd Gwirioneddol

Penderfynir bod rhybudd yn rhybudd gwirioneddol pan fydd y ddelwedd chwilota yn cyfateb i ddelwedd yr unigolyn ar y rhestr wyllo.

Rhybudd Gwirioneddol wedi'i Gadarnhau

Ar ôl ymgysylltu, penderfynir bod rhybudd yn rhybudd gwirioneddol wedi'i gadarnhau pan fydd yr unigolyn yr ymgysylltwyd ag ef yn cyfateb i'r person yn nelwedd yr unigolyn ar y rhestr wyllo.

Cyfradd Adnabod Gwirioneddol

Cyfanswm nifer y troeon y gwyddys bod unigolyn/unigolion ar restr wyllo wedi mynd drwy'r parth adnabod a chynhyrchu rhybudd yn gywir, fel cyfran o gyfanswm nifer y troeon y mae'r unigolion hynny yn mynd drwy'r parth adnabod (p'un a gynhyrchir rhybudd ai peidio). Cyfeirir at hyn hefyd fel y Gyfradd Nodi Cadarnhaol Gwirioneddol.

Rhybudd Anwir

Pan fydd y gweithredwr yn penderfynu nad yw'r ddelwedd chwilota yn cyfateb i ddelwedd yr unigolyn ar y rhestr wyllo, yn seiliedig ar ddyfarniad heb unrhyw ymgysylltu. (Mae'r Gyfradd Rhybuddion Anwir yn un o ddau fesur sy'n berthnasol i bennu Cywirdeb y Rhaglen).

Rhybudd Anwir wedi'i Gadarnhau



Ar ôl Ymgysylltu, penderfynir nad yw'r unigolyn yr ymgysylltwyd ag ef yn cyfateb i'r person yn nelwedd yr unigolyn ar y rhestr wyllo.

Cyfradd Rhybuddion Anwir

Nifer yr unigolion nad ydynt ar y rhestr wyllo sy'n cynhyrchu rhybudd anwir neu rybudd anwir wedi'i gadarnhau fel cyfran o gyfanswm nifer y bobl sy'n mynd drwy'r parth adnabod. Cyfeirir at hyn hefyd fel cyfradd nodi cadarnhaol anwir.

Cywirdeb y Rhaglen

Gellir ystyried bod cywirdeb y rhaglen yn cynnwys cyfuniad o gywirdeb y dechnoleg adnabod wynebau byw a'r unigolyn yn y broses gwneud penderfyniadau ddolennog. Pennir cywirdeb drwy fesur dau fetrig, sef y Gyfradd Adnabod Gwirioneddol a'r Gyfradd Rhybuddion Anwir. Caiff hyn ei esbonio ymhellach isod. Mae'r enghraifft a roddir wedi'i symleiddio er mwyn dangos y cysyniad ond noder bod y metrigau wedi'u cyfrifo yn unol â'r dull gwyddonol y cytunwyd arno fel y'i nodir gan y Sefydliad Safoni Rhyngwladol:

	Cyfradd Adnabod Gwirioneddol	Cyfradd Rhybuddion Anwir
Beth yw hwn?	Cyfanswm nifer y troeon y gwyddys bod unigolyn/unigolion ar restr wyllo wedi mynd drwy'r parth adnabod, gan gynhyrchu rhybudd yn gywir, fel cyfran o gyfanswm nifer y troeon y mae'r unigolion hynny yn mynd drwy'r Parth Adnabod. Mae p'un a gynhyrchir rhybudd gan y rhaglen adnabod wynebau byw ai peidio yn amherthnasol.	Nifer yr unigolion nad ydynt ar y rhestr wyllo sy'n cynhyrchu Rhybudd Anwir neu Rybudd Anwir wedi'i Gadarnhau fel cyfran o gyfanswm nifer y bobl sy'n mynd drwy'r Parth Adnabod.
Enghraifft Benodol	 <p>Byddai'r Gyfradd Adnabod Gwirioneddol yn 90% pe byddai 10 person ar y rhestr wyllo yn mynd heibio i'r system adnabod wynebau byw, a bod rhybudd yn cael ei gynhyrchu'n gywir ar gyfer 9 allan o 10 o'r bobl hynny (heb gynhyrchu rhybudd ar gyfer y 10fed person).</p>	<p>Byddai'r Gyfradd Rhybuddion Anwir yn 0.1%, pe byddai rhybudd yn cael ei gynhyrchu yn erbyn un person nad oedd ar y rhestr wyllo ar gyfer pob 1,000 o bobl sy'n mynd heibio i'r system adnabod wynebau byw.</p> 

Swyddog Awdurdodi

Y swyddog (sydd fel arfer ar reng Uwch-arolygydd neu reng uwch) sy'n rhoi awdurdod i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw.

Templed Biometrig

Cynrychioliad digidol o nodweddion yr wyneb a dynnwyd o'r ddelwedd o'r wyneb. Y templedi hyn (ac nid y delweddau eu hunain) a ddefnyddir at ddibenion chwilio ac sy'n cynnwys data personol biometrig. Noder bod y templedi yn perthyn yn benodol i bob algorithm adnabod

wynebau. Bydd angen cynhyrchu templedi newydd o'r delweddau gwreiddiol os caiff algorithm y rhaglen adnabod wynebau byw ei newid.

Rhestr Wyllo Las

Rhestr wyllo sy'n cynnwys pobl hysbys y gellir ei defnyddio i brofi perfformiad y system. Er enghraifft, efallai y caiff swyddogion/staff yr heddlu eu rhoi ar restr wyllo las a'u 'plannu' fel rhan o'r dorf sy'n cerdded drwy'r parth adnabod wrth ddefnyddio'r rhaglen.

Delwedd yr Unigolyn

Delwedd o berson o'r rhestr wyllo a ddychwelir o ganlyniad i rybudd.

Defnyddio'r Rhaglen

Defnyddio rhaglen adnabod wynebau byw fel yr awdurdodir gan Swyddog Awdurdodi i ddod o hyd i'r unigolion hynny sydd ar restr wyllo adnabod wynebau byw.

Cofnod Defnyddio'r Rhaglen

Cyfuniad o'r rhaglen adnabod wynebau byw, y ddogfen awdurdod ysgrifenedig a'r adroddiad canslo adnabod wynebau byw. Mae'n rhoi manylion defnydd arfaethedig o dechnoleg adnabod wynebau byw ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- a. lleoliad
- b. dyddiadau ac amseroedd
- c. y sail resymegol dros ddefnyddio'r dechnoleg a'r rhestr wyllo
- d. y sail gyfreithlon
- e. rheidrwydd
- f. cymesuredd
- g. mesurau diogelwch
- h. cyfansoddiad y rhestr wyllo
- i. swyddog awdurdodi
- j. adnoddau
- k. ystadegau perthnasol
- l. canlyniadau
- m. crynodeb o unrhyw faterion

Ymgysylltu

Swyddog sy'n cyfathrebu ag aelod o'r cyhoedd o ganlyniad i Rybudd.

Ffactorau Amgylcheddol

Elfen allanol sy'n effeithio ar berfformiad rhaglen adnabod wynebau byw fel goleuo gwan, golau llachar, glaw, niwl ac ati.

Wynebau fesul ffrâm

Gosodiad y mae modd ei ffurfweddu sy'n pennu nifer yr wynebau y gellir eu dadansoddi gan y rhaglen adnabod wynebau byw ym mhob ffrâm fideo.

Technoleg Adnabod Wyneb (FRT)

Mae'r dechnoleg hon yn gweithio drwy ddadansoddi nodweddion allweddol yr wyneb, cynhyrchu cynrychioliad mathemategol ar gyfer y nodweddion hyn, ac yna eu cymharu yn erbyn y cynrychioliad mathemategol o wyneb hysbys mewn cronfa ddata ac sy'n cynhyrchu cyfatebiadau posibl. Mae hyn yn seiliedig ar ddelweddau digidol (llonydd neu o ffrydiau camera byw).

Negyddol Anwir

Lle bo person ar y rhestr wyllo yn mynd drwy'r parth adnabod ond na chaiff rhybudd ei gynhyrchu. Mae nifer o resymau dros achosion Negyddol Anwir; mae'r rhain yn cynnwys y rhaglen, y testun a ffactorau amgylcheddol a pha mor uchel y mae'r trothwy wedi'i osod.

Comander Aur

Y swyddog sy'n rheoli'r defnydd o'r dechnoleg yn gyffredinol ac sy'n gyfrifol ac yn atebol amdano yn y pen draw. (Mae'n gyfrifol ac yn atebol am yr ymgyrch blismona/digwyddiad ac yn pennu'r amcanion strategol).

Technoleg Adnabod Wyneb Byw (LFR)

Adnabod wyneb byw yw'r defnydd amser real o dechnoleg adnabod wyneb, sy'n cymharu ffrwd/ffrydiau camera byw o wyneb yn erbyn Rhestr Wyllo a bennwyd ymlaen llaw er mwyn dod o hyd i bobl o ddiddordeb drwy gynhyrchu rhybudd pan nodir cyfatebiad posibl.

Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wyneb Byw

Swyddog sy'n gyfrifol am gynnal y broses ddyfarnu yn dilyn rhybudd. Gall y swyddog benderfynu cynnal gwaith ymgysylltu neu gall benderfynu beidio â gwneud hynny. Hefyd, bydd y swyddogion hyn yn helpu'r cyhoedd drwy ateb cwestiynau a'u helpu i ddeall diben a natur defnyddio'r rhaglen adnabod wyneb byw.

Gweithredwr Technoleg Adnabod Wyneb Byw

Swyddog neu aelod o'r staff sy'n gyfrifol yn bennaf am weithredu'r system adnabod wyneb byw. Bydd yn ystyried rhybuddion a, drwy'r broses ddyfarnu, bydd yn helpu swyddogion ymgysylltu adnabod wyneb byw i benderfynu a ddylid gweithredu rhybudd.

Peiriannydd System Adnabod Wyneb Byw

Unigolyn y mae Heddlu De Cymru yn ystyried bod ganddo'r cymwysterau a'r profiad technegol addas i gynnal gallu gweithredol system adnabod wyneb byw Heddlu De Cymru a chael y budd gorau posibl ohoni.

Unigolyn (unigolion) o Ddiddordeb

Unigolyn sydd ar restr wyllo

Cyfatebiad Posibl

Unigolyn a ddychwelir o ganlyniad i ffaith bod y ddelwedd chwilota a delwedd yr unigolyn yn ddigon tebyg i'w gilydd i gynhyrchu sgôr uwchlaw'r trothwy.

Delwedd Chwilota

Delwedd o wyneb a ddefnyddir i gynnal chwiliad yn erbyn rhestr wyllo.

Amser Adnabod

Yr amser cyfartalog rhwng yr adeg y mae wyneb yn ymddangos ym mharth adnabod y camera a'r adeg y mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn cynhyrchu rhybudd.

Adnabod Wynebau Ôl-weithredol (RFR)

Defnyddio technoleg adnabod wynebau ar ôl digwyddiad, sy'n cymharu delweddau llonydd o wynebau testunau anhysbys yn erbyn cronfa ddata delweddau cyfeirio er mwyn eu hadnabod.

Comander Arian

Y swyddog sy'n rheoli ac yn cydgysylltu'r defnydd tactegol cyffredinol a wneir o'r dechnoleg adnabod wynebau byw yn unol â'r strategaeth a nodir gan y Comander Aur. (Y comander arian sy'n datblygu, yn rheoli ac yn cydgysylltu ymateb tactegol cyffredinol ymgyrch, yn unol â'r amcanion strategol a bennir gan y comander aur).

Sgôr Tebygrwydd

Y gwerth rhifiadol sy'n dangos pa mor debyg yw'r ddelwedd chwilota a delwedd yr unigolyn, gyda sgôr uwch yn dynodi mwy o debygrwydd rhyngddynt.

Ffactor Testun

Ffactor sy'n gysylltiedig â'r unigolyn, er enghraifft, ffactorau demograffig neu nodweddion corfforol neu ymddygiadau, er enghraifft, mae'r unigolyn yn gwisgo gorchudd pen, yn ysmegu, yn bwyta, neu'n edrych i lawr wrth fynd heibio i'r camera.

Ffactor System

Ffactor sy'n ymwneud â'r rhaglen adnabod wynebau byw fel yr algorithm.

Trothwy

Y pwynt cyflunio lle y bydd dwy ddelwedd sy'n cael eu cymharu yn arwain at Rybudd. Mae angen gosod y trothwy yn ofalus er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ddychwelyd rhybuddion gwirioneddol wrth gadw'r gyfradd rhybuddion anwir ar lefel dderbyniol.

Mater Brys

Yng nghyd-destun awdurdodi'r defnydd o raglen adnabod wynebau byw, defnydd sy'n ymwneud â'r canlynol:

Sefyllfa lle bo bygythiad uniongyrchol i fywyd neu niwed difrifol; a/neu gudd-wyboodaeth / cyfle i ymchwilio heb fawr ddim amser i weithredu, lle mae difrifoldeb y sefyllfa a'r manteision posibl yn golygu bod angen gweithredu ar frys.

Rhestr Wyllo

Set o ddelweddau cyfeirio hysbys y chwilir am ddelwedd chwilota yn eu herbyn. Fel arfer, mae'r rhestr wyllo yn is-set o gasgliad llawer mwy o ddelweddau (cronfa ddata delweddau cyfeirio) a bydd wedi'i llunio'n benodol er mwyn defnyddio'r rhaglen adnabod wynebau byw.

Parth Adnabod

Gwagle tri-dimensiwn o fewn maes gwelediad y camera a lle y bodlonir yr amodau delweddu ar gyfer adnabod wynebau yn gadarn. Yn gyffredinol, mae'r parth adnabod yn llai na maes gwelediad y camera, felly efallai na fydd pob wyneb yn y maes gwelediad yn glir ac na fydd pob wyneb yn y maes gwelediad yn cael ei ddelweddu â'r eglurder angenrheidiol ar gyfer adnabod wynebau.

3 Trosolwg o Faes Adnabod Wynebau Byw

Technoleg Adnabod Wynebau Byw yng Nghyd-destun Gorfodi'r Gyfraith

- 3.1 Mae Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn helpu Heddlu De Cymru i ddod o hyd i bobl y mae'n chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau ac yn helpu i ddiogelu'r unigolion hynny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.
- 3.2 Mae'r dechnoleg yn ein helpu i ddod o hyd i unigolion sy'n peri risg iddyn nhw eu hunain neu i eraill, drwy fonitro delweddau o wynebau pobl mewn Parth Adnabod. Chwilir delweddau o gamerâu wedi'u gosod yn arbennig yn erbyn Rhestr Wyluo o Ddelweddau o Unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt neu yr amheuir, ar sail cudd-wybodaeth, eu bod yn peri risg iddyn nhw eu hunain neu i eraill. Fel arfer, mae Rhestrau Gwylio ond yn cynnwys unigolion yr amheuir eu bod yn agos i ardal ac, felly, lle mae rhywfaint o bosibilrwydd neu debygolrwydd y bydd unigolyn yn mynd heibio i system adnabod wynebau byw.
- 3.3 Mae technoleg adnabod wynebau byw yn gweithio drwy ddadansoddi nodweddion wynebau allweddol er mwyn cynhyrchu cynrychioliad mathemategol ohonynt. Wedyn, caiff y cynrychioliad hwn ei gymharu yn erbyn wynebau hysbys mewn cronfa ddata er mwyn nodi Cyfatebiadau Posibl â phobl sydd o ddiddordeb i Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith. Os bydd y rhaglen adnabod wynebau byw yn nodi Cyfatebiad Posibl, bydd y system adnabod wynebau byw yn tynnu sylw aelod hyfforddedig o bersonél Heddlu De Cymru at y ffaith bod Rhybudd wedi'i gynhyrchu, a fydd yn penderfynu wedyn a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Fel hyn, mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn gweithio i helpu personél Heddlu De Cymru i adnabod pobl yn hytrach na gweithredu fel proses beiriannol annibynnol heb unrhyw fewnbwn gan ddefnyddwyr.

Technoleg Adnabod Wynebau Byw a Heddlu De Cymru

- 3.4 Mae technoleg adnabod wynebau byw wedi'i threialu gan Heddlu De Cymru dros gyfnod o bedair blynedd. Mae Heddlu De Cymru yn credu bod y dechnoleg yn adnodd plismona gwerthfawr sy'n helpu Heddlu De Cymru i gadw'r cyhoedd yn ddiogel a chyflawni ei ddyletswyddau plismona o dan y gyfraith gyffredin, cadw trefn a dwyn troseddwy gerbron y llys.
- 3.5 Mae'r canlynol yn enghreifftiau lle y gallai'r dechnoleg helpu Heddlu De Cymru i gyflawni ei ddibenion plismona:-
 - a) Helpu i ddod o hyd i bobl y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau a'u harestio;
 - b) Atal pobl a allai achosi niwed rhag dod i mewn i ardal (e.e. o dan orchmynion gwahardd pêl-droed);
 - c) Helpu i adnabod pobl y mae cudd-wybodaeth amdanynt i awgrymu y gallent beri risg iddyn nhw eu hunain neu i eraill (e.e. stelcwyr, terfysgwyr, unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu risg uwch ac ati);
 - d) Cefnogi'r defnydd o dactegau plismona ataliol wedi'u targedu mewn ardaloedd lle mae cudd-wybodaeth yn awgrymu y gallai troseddau treisgar gael eu cyflawni.

- 3.6 Er ei bod yn amlwg bod y defnydd priodol o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn dod â manteision i Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith yn y DU a'r cyhoedd yn ei dro, mae'n bwysig cydnabod bod y defnydd o'r dechnoleg yn cynnwys prosesu data biometrig. Mae Heddlu De Cymru yn ymwybodol bod y defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw wedi bod yn destun cryn drafod. Mae a wnelo meysydd sydd wedi bod yn destun cryn drafod a gwaith craffu ag ymyrryd â rhyddidau sifil ac achosion o gynhyrchu Rhybuddion Anwir sy'n ymwneud â chywirdeb technoleg adnabod wynebaw byw, y potensial ar gyfer monitro ar raddfa eang drwy ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw a'r posibilrwydd y caiff penderfyniadau eu gwneud yn awtomataidd o ganlyniad i weithgarwch prosesu adnabod wynebaw byw.
- 3.7 Felly, mae'n rhaid i Heddlu De Cymru sicrhau bod technoleg adnabod wynebaw byw yn cael ei defnyddio'n gyfreithlon ac yn gyfrifol at ddibenion plismona dilys ac mewn modd tryloyw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau na fydd y defnydd o'r dechnoleg yn tanseilio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.
- 3.8 Wrth geisio mynd i'r afael â phryderon posibl eraill, mae Heddlu De Cymru wedi hwyluso ymchwil academiaidd dan arweiniad y Labordy Ffiseg Cenedlaethol ac wedi mynd ati i ymgysylltu â grwpiau sydd â diddordeb mewn rhyddidau sifil a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru.
- 3.9 Mae Heddlu De Cymru wedi gwranddo'n ofalus ar lawer o bartion sydd â diddordeb yn y defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebaw byw ac wedi ystyried yn ofalus pa fesurau diogelwch sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r defnydd o'r dechnoleg. Rhaid cynllunio'n ofalus bob tro y defnyddir y dechnoleg a phennu amcanion a'u dogfennu'n glir. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi sicrhau bod ei asesiad a'i awdurdodiad yn cyfleu cyfreithlondeb, rheidrwydd a chymesuredd yn glir. Wrth ystyried cyfreithlondeb, dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried sut y bydd y cyhoedd yn cael budd o ganlyniad i ddefnyddio'r dechnoleg a sut mae hyn yn gwneud iawn am unrhyw bryderon a all fod gan y cyhoedd mewn perthynas â'r ffordd yr ymdrinnir â'u hawliau dynol.
- 3.10 Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi hefyd fod yn fodlon bod Gweithredwyr Systemau Adnabod Wynebaw Byw a Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebaw Byw sy'n ymwneud â defnyddio'r dechnoleg wedi cael eu hyfforddi a'u briffio'n briodol a'u bod yn atebol. Rhaid iddynt hefyd fod yn fodlon y caiff cyfarpar ei ddefnyddio'n gywir a bod y rhai sy'n ymwneud â defnyddio'r dechnoleg yn cymryd camau i liniaru ymatebion amhriodol i Rybuddion a gynhyrchir gan raglenni adnabod wynebaw byw.
- 3.11 Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried sut y gallai defnyddio'r dechnoleg effeithio ar gymunedau yn gyffredinol a'r ffordd y mae hawliau pawb y mae eu delwedd yn debygol o gael ei recordio gan y rhaglen adnabod wynebaw byw wedi'u hystyried a pha fesurau diogelwch sydd ar waith i'w diogelu.
- 3.12 Yn ogystal â datblygu tactegau plismona sy'n diogelu'r cyhoedd mor effeithiol â phosibl a'u rhoi ar waith, mae Heddlu De Cymru yn awyddus i sicrhau y caiff tactegau newydd, megis defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw, eu monitro i weld pa effaith y maent yn ei chael. Bydd Heddlu De Cymru yn rhoi proses lywodraethu gadarn ar waith er mwyn monitro effeithiolrwydd ac effaith y defnydd a wneir o'r dechnoleg yn barhaus. Bydd Heddlu De Cymru

yn canolbwyntio ar sicrhau tryloywder a bydd yn gwneud hyn drwy ymateb i waith craffu yn ogystal â mynd ati i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliad, gan gynnwys pobl o gymunedau yn Ne Cymru, a'u cynnwys fel rhan o broses barhaus.

- 3.13 Bydd y ddogfen ganllaw hon yn parhau i ddatblygu er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, rheoliadau, technoleg a defnydd a dderbynnir.

4. Bwriad Strategol, Amcanion a'r Achos dros Ddefnyddio'r Dechnoleg

4.1 Rhaid i dechnoleg adnabod wynebâu byw gael ei Defnyddio o dan Ddogfen Awdurdod Ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â'r bwriadau strategol a'r amcanion gweithredol canlynol.

Bwriadau Strategol

4.2 Bydd Heddlu De Cymru yn gwneud y canlynol:-

- a) defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw yn agored mewn ffordd gyfrifol er mwyn dod o hyd i droseddwr yn unol â phwerau plismona Heddlu De Cymru o dan y gyfraith gyffredin. Mae hyn yn cynnwys targedu unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau.
- b) cydymffurfio â'r gyfraith gyffredin a mesurau diogelwch statudol wrth gyflawni ei ddyletswyddau plismona gweithredol a bydd yn dibynnu ar y gyfraith gyffredin i gyflawni nifer o'i ddyletswyddau. Gall technoleg adnabod wynebâu byw helpu Heddlu De Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau i ddiogelu bywyd ac eiddo, cadw trefn ac atal bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd, atal a chanfod troseddau, dwyn troseddwr gerbron y llys a chynnal diogelwch gwladol. Mae hyn yn cynnwys targedu unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau. Mae hefyd yn cynnwys defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw i ddiogelu'r cyhoedd, lleihau troseddau a helpu i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed.
- c) cryfhau a datblygu gallu technolegol y system adnabod wynebâu byw er mwyn diogelu'r cyhoedd, lleihau troseddau difrifol, helpu i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed a chadw De Cymru'n Ddiogel.
- d) ennyn ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y ffordd y caiff technoleg adnabod wynebâu byw ei datblygu, ei rheoli a'i defnyddio drwy ystyried pryderon o ran preifatrwydd a bod mor dryloyw â phosibl;
- e) cynnal trefniadau llywodraethu da drwy strwythur rheoli sy'n cynnwys arweinwyr strategol, gweithredol a thechnegol ar gyfer Defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw, gyda phroseau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd clir;
- f) sicrhau bod y Defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebâu byw yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol cymwys a'i fod yn cyd-fynd â'r fframwaith goruchwyllo a rheoleiddio fel y'i hamlinellir ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr gan y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, y Comisiynydd Gwybodaeth a Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebâu byw.
- g) nodi, rheoli a lliniaru'r risg sefydliadol i Heddlu De Cymru a'r risg i'w enw da mewn ffordd dryloyw;
- h) cael ei gydnabod fel sefydliad blaengar, cyfrifol a moesegol.

Amcanion Gweithredol

4.3 Bydd Heddlu De Cymru yn gwneud y canlynol:-

- a) defnyddio technoleg adnabod wynebau byw er mwyn galluogi Heddlu De Cymru i gyflawni ei bwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin. Mae hyn yn cynnwys yr angen i fynd i'r afael â'n blaenoriaethau gweithredol pennaf megis troseddau treisgar. Bydd y dechnoleg yn cynyddu nifer y cyfleoedd gorfodi a arweinir gan gudd-wybodaeth gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â throseddau'n ymwneud â chyllyll a drylliau, cam-drin plant yn rhywiol, terfysgaeth a helpu i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Bydd hefyd yn helpu i ddod o hyd i unigolion y mae'r llysoedd yn awyddus i'w dal neu sydd wedi torri amodau eu mechnïaeth;
- b) mabwysiadu dull cadarn a chymesur o ymgysylltu ag unigolion a gaiff eu hadnabod ar Restr Wyllo rhaglen adnabod wynebau byw a'u hymnid, gyda phenderfyniadau yn cael eu gwneud gan bobl. Mae goruchwyliaeth swyddogion yn weithredol ac yn gyfranogol, ac mae'r swyddog yn cadw rheolaeth lawn ac yn penderfynu a ddylid cymryd camau ai peidio. a
- c) ymgysylltu â chymunedau a rhoi tawelwch meddwl iddynt, gan wrando ar bryderon ac ymateb iddynt;
- d) nodi ac adolygu risgiau sy'n berthnasol i dechnoleg adnabod wynebau byw yn barhaus, lliniaru'r risgiau hynny a chynnal cynllun ymateb os bydd y mesurau lliniaru yn methu.

Amcanion Technolegol

4.4 Bydd Heddlu De Cymru yn gwneud y canlynol:-

- a) sicrhau bod yr holl dechnoleg adnabod wynebau byw yn addas at y diben a'i bod yn cael ei defnyddio'n effeithiol gyda bwriadau strategol ac amcanion gweithredol;
- b) darparu goruchwyliaeth dechnegol barhaus a gwerthuso'n rheolaidd effeithiolrwydd y dechnoleg fel tacteg blismona i fynd i'r afael â throseddau treisgar a throseddau eraill yr anfonir unigolion i'r carchar am eu cyflawni;
- c) ceisio gwneud gwelliannau technegol wrth adolygu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn rheolaidd. Lle y bo'n briodol, byddwn yn treialu darparwyr amgen meddalwedd a chaledwedd adnabod wynebau ochr yn ochr â'n darpariaeth bresennol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn ceisio'r gwasanaeth gorau posibl ac yn gallu mynd ati'n rhagweithiol i wella methodolegau gweithio a chywirdeb. Caiff canlyniadau unrhyw dreial cyfochrog eu cofnodi â'r un metrigau perfformiad allweddol a gesglir wrth ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau yn addas i'w cymharu'n uniongyrchol a'u dadansoddi. Nid effeithir ar unrhyw gyfnodau cadw a nodwyd yn flaenorol. Ni chaiff gwybodaeth bersonol a brosesir fel hyn ei rhannu ag unrhyw unigolyn trydydd parti arall.

Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw

- 4.5 Mae a wnelo'r canllawiau hyn â defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn agored er mwyn helpu Heddlu De Cymru i ddiogelu'r cyhoedd. Bydd Heddlu De Cymru yn adolygu'r

defnydd a wneir o'r dechnoleg yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gael ei defnyddio fel adnodd effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â throseddau.

- 4.6 Mae technoleg adnabod wynebâu byw yn helpu Heddlu De Cymru i ddefnyddio ei adnoddau yn fwy effeithlon. Mae Heddlu De Cymru o'r farn bod y dechnoleg yn well na phobl o ran adnabod pobl o gronfa ddata fawr (fel arfer cannoedd i ychydig o filoedd) a chysylltu Cyfatebiad Posibl yn gyflym, gan ddarparu gwybodaeth sy'n nodi pam y gallent fod o ddiddordeb i Heddlu De Cymru ar yr un pryd.
- 4.7 Mae defnyddio'r dechnoleg hefyd yn helpu i leihau faint o wybodaeth sy'n cael ei rhannu, am fod y dechnoleg yn cynnig dewis amgen yn lle cynnal ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol neu rannu gwybodaeth ag asiantaethau allanol.
- 4.8 Caiff lleoliadau ar gyfer Defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw eu monitro'n ofalus, gyda'r dechnoleg yn cael ei defnyddio mewn ardaloedd lle y mae ganddi'r potensial mwyaf i helpu Heddlu De Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau gweithredol. Caiff y penderfyniad i ddefnyddio'r dechnoleg ei ategu bob amser gan sail resymegol sy'n esbonio pam y dewiswyd lleoliad ar gyfer defnyddio'r dechnoleg yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Mandad Cyfreithiol a Dogfennau eraill Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebâu byw.
- 4.9 Gan fod technoleg adnabod wynebâu byw yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o bersonél Heddlu De Cymru edrych ar bob Rhybudd mewn amser real er mwyn penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach, bydd Heddlu De Cymru bob amser yn defnyddio'r dechnoleg mewn ffordd sy'n weithredol effeithiol ac sy'n galluogi Heddlu De Cymru i weithredu ar unrhyw Rybuddion wrth iddynt gael eu cynhyrchu. Ni chaiff y dechnoleg ei defnyddio'n fymrwyl.

5. Trosolwg o Brosesau Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw

Y Broses o'r Dechrau i'r Diwedd

5.1 Gellir crynhoi'r broses o ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw o'r dechrau i'r diwedd fel a ganlyn:-

- a) Nodir diben gorfodi'r gyfraith ar gyfer y rhaglen adnabod wynebau byw, ystyrir mesurau diogelwch, awdurdodir Defnyddio'r dechnoleg a dewisir y Rhestr Wyllo;
- b) rhoddir Hysbysiad o'r Penderfyniad i ddefnyddio'r dechnoleg a gosodir arwyddion;
- c) Wrth i unigolion fynd heibio i'r camera adnabod wynebau byw, caiff eu hwynebâu eu recordio ac, os bydd ansawdd y ddelwedd yn ddigon da, cânt eu cymharu yn erbyn Rhestr Wyllo;
- d) Os nodir Cyfatebiad Posibl â delwedd ar Restr Wyllo, bydd y rhaglen adnabod wynebâu byw yn cynhyrchu Rhybudd, a chyflwynir yr wyneb a recordiwyd o'r fideo a'r ddelwedd sy'n Gyfatebiad Posibl o'r Rhestr Wyllo i'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebâu Byw / Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebâu Byw er mwyn iddo edrych arno;
- e) Bydd y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebâu Byw / Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebâu Byw yn ystyried y Rhybudd, gan nodi'r ffactorau sy'n ymwneud â'r System, y Testun a'r Ffactorau Amgylcheddol, ac ynghyd â mantais eu profiad a'u hyfforddiant, bydd yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach ac a ddylid Ymgysylltu â'r unigolyn;
- f) Canslo'r awdurdod i ddefnyddio technoleg adnabod wynebâu a chynnal gwerthusiad ar ôl ei Defnyddio.

5.2 Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebâu Byw yn rhoi mwy o fanylion am y prosesau y mae Heddlu De Cymru yn eu dilyn wrth ddefnyddio'r dechnoleg. Ceir siart lif sy'n crynhoi'r broses o ddefnyddio technoleg adnabod wynebâu byw yn Adran 13 o'r ddogfen hon.

Pwyntiau Allweddol

- a) Mae technoleg adnabod wynebâu byw yn defnyddio delweddau ym Mharth Adnabod y rhaglen adnabod wynebâu byw. Ni chaiff unrhyw unigolyn ei 'dargedu' yn fwy nag unigolyn arall oni bai ei fod ar Restr Wyllo;
- b) Mae dewis a gosod camerâu yn ystyriaeth hanfodol er mwyn sicrhau bod yr ardal ofynnol yn cael ei chwmpasu'n briodol;
- c) Mae ansawdd ac eglurder delweddau (y rhai ar y Rhestr Wyllo a'r rhai o'r camerâu fideo) yn hanfodol bwysig ac mae'n rhaid eu hystyried yn ofalus;
- d) Mae angen cyfiawnhau'r penderfyniad i gynnwys unigolion ar Restr Wyllo yn seiliedig ar egwyddorion rheidrwydd a chymesured. Felly, bydd angen i nifer yr unigolion ar Restr Wyllo fod mor fach â phosibl ac, ar yr un pryd, gyflawni'r diben plismona dilys. Fel arfer,

ni fydd mwy nag ychydig o filoedd o unigolion ar y Rhestr Wyllo, er bod hyn yn debygol o newid wrth i'r dechnoleg ddatblygu ymhellach;

- e) Mae'n bwysig cydbwyso amcanion yr ymgyrch â maint y Rhestr Wyllo a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn ymateb i Rybuddion. Os bydd yr amcanion yn rhy gyffredinol a/neu os bydd y Rhestr Wyllo yn rhy fawr, efallai y bydd lefel yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn ymateb i Rybuddion yn afresymol o uchel.

Plismona'r Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw yn Effeithiol

- 5.3 Rhaid sicrhau bod digon o adnoddau sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael er mwyn ymateb i Rybuddion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y rhaglen adnabod wynebau byw a'r data sy'n cael eu prosesu ganddi yn cael eu defnyddio'n effeithiol.
- 5.4 Mae nifer y bobl y disgwylir iddynt fynd drwy Barth Adnabod y rhaglen adnabod wynebau byw yn dylanwadu ar y gyfradd Negyddol Anwir, y gyfradd Rhybuddion Anwir, yr Amser Adnabod a'r tebygolrwydd y bydd pobl o'r Rhestr Wyllo yn cael eu gwyllo oll yn faterion y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu pa adnoddau a ddylai fod ar gael.
- 5.5 Mae hefyd yn hanfodol bod Heddlu De Cymru yn dryloyw o ran y defnydd y mae'n ei wneud o dechnoleg adnabod wynebau byw o dan y canllawiau hyn. Yn ogystal â defnyddio arwyddion, bydd darparu digon o adnoddau plismona yn galluogi swyddogion i ateb cwestiynau a all fod gan y cyhoedd.

6. Llywodraethu, Goruchwyliaeth ac Aseidiadau Effaith

6.1 Ar ôl ymgynghori, mae'r amodau canlynol wedi cael eu cynnig a'u derbyn gan Heddlu De Cymru:-

- a) Rhaid cydbwysu'r manteision cyffredinol i'r cyhoedd â hyder y cyhoedd yn y defnydd rydym yn ei wneud o dechnoleg adnabod wynebaw byw;
- b) Gellir dangos na fydd y dechnoleg ei hun yn arwain at amrywiadau annerbyniol o ran rhywedd na hil mewn ymgyrchoedd plismona;
- c) Rhaid asesu ac awdurdodi'r Defnydd o'r dechnoleg bob amser, gan ddangos ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur at y diben plismona penodol;
- d) Caiff Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw eu hyfforddi i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r rhaglen adnabod wynebaw byw, gan gynnwys sut y gallai achosion posibl o anghyfiawnder godi o ganlyniad i ymatebion amhriodol a'u bod yn atebol am eu gweithredoedd;
- e) Bydd Heddlu De Cymru yn datblygu ac yn cynnal trefniadau llywodraethu a goruchwyllo cadarn sy'n cydbwysu manteision technolegol technoleg adnabod wynebaw byw â'i natur ymwithiol bosibl. Bydd y trefniadau hyn yn bodloni gofyniad Strategaeth Biometreg y Swyddfa Gartref i sicrhau tryloywder, gan ystyried canllawiau gan y Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth a Biometreg ar yr un pryd. Bydd y trefniadau hefyd yn canolbwyntio ar roi cyfundrefn arolygu, archwilio a gorfodi cydymffurfiaeth fewnol dryloyw a gweladwy ar waith.

Fframwaith Llywodraethu

6.2 Mae Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymwneud â thechnoleg adnabod wynebaw byw yn ymdrin â'r amodau a nodwyd uchod. Mae tri cham i'r gwaith o lywodraethu a goruchwyllo'r defnydd o'r dechnoleg, sef:-

- a) Cyn Defnyddio'r Dechnoleg;
- b) Y Defnydd Gweithredol o'r Dechnoleg;
- c) Ar ôl Defnyddio'r Dechnoleg

Cyn Defnyddio'r Dechnoleg

6.3 Mae'r awdurdod i ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yn un gweithredol, lle mae Swyddog Awdurdodi Heddlu De Cymru ar reng Uwch-arolygydd. Mewn achosion prin lle mae angen gweithredu ar frys, gall swyddog islaw rheng Uwch-arolygydd, ond nid islaw rheng Arolygydd, awdurdodi defnyddio'r dechnoleg.

6.4 Os bydd swyddog islaw rheng Uwch-arolygydd yn rhoi'r awdurdod, rhaid hysbysu Uwch-arolygydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Wedyn, mater i'r Uwch-arolygydd yw awdurdodi'r defnydd o'r dechnoleg i barhau, gan wneud newidiadau i'r awdurdod os bydd o'r farn bod angen gwneud hynny neu gyfarwyddo bod yn rhaid i'r defnydd ohoni ddod i ben.

- 6.5 Cyn i'r Swyddog Awdurdodi roi awdurdod a chyn i'r dechnoleg adnabod wynebau byw gael ei defnyddio mewn mannau cyhoeddus, rhaid cwblhau nifer o ddogfennau a rhaid i'r Swyddog Awdurdodi ymgysylltu ag un o swyddogion Heddlu De Cymru ar reng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu¹ (neu aelod cyfatebol o staff yr heddlu). Er nad yw Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn rhoi awdurdod i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw, mae ymgynghori yn digwydd ar y lefel hon er mwyn amlygu'r Defnydd arfaethedig o'r dechnoleg i lefel uwch o feddwl strategol, lle y rhoddir cymaint o ystyriaeth â phosibl i faterion. Mae hyn yn rhoi cyfle i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu graffu ar y Defnydd o'r dechnoleg a gofyn i'r Swyddog Awdurdodi ystyried pa fesurau lliniaru sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd wedi codi.
- 6.6 Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi hysbysu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Heddlu De Cymru (neu aelod dynodedig o staff) cyn i'r dechnoleg gael ei defnyddio bob amser.
- 6.7 Mae Pwyllgor Moeseg Heddlu De Cymru yn ffynhonnell annibynnol o gyngor. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys rhoi cyngor a darparu goruchwyliaeth annibynnol ar gyfer Heddlu De Cymru mewn perthynas â materion moesegol a hyrwyddo ystyriaethau moesegol o fewn fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol.

¹ Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu – Mae 'rheng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu' yn dynodi swyddog sydd ar reng Prif Gwnstabl Cynorthwyol neu reng uwch.

6.8 Mae angen cwblhau nifer o ddogfennau a chofnodion penodol Heddlu De Cymru bob tro y Defnyddir y dechnoleg. Nodir y rhain isod:-

Dogfennau a Chofnodion Heddlu De Cymru sy'n ymwneud yn benodol â defnyddio technoleg adnabod wynebau byw.	
Rhaglen adnabod wynebau byw	Mae'n nodi manylion bwriad i Ddefnyddio'r rhaglen, gan gynnwys lleoliad, dyddiadau/amseroedd, nod dilys, sail gyfreithlon, rheidrwydd, cymesuredd, mesurau diogelwch, cyfansoddiad y Rhestr Wyllo, ac adnoddau.
Awdurdod Ysgrifenedig Dogfen	<p>Mae awdurdod ysgrifenedig y Swyddog Awdurdodi yn darparu trywydd archwilio ar gyfer penderfyniadau a wnaed sy'n dangos sut mae'r Swyddog Awdurdodi wedi ystyried cyfreithlondeb, rheidrwydd a chymesuredd y Defnydd o'r dechnoleg, y mesurau diogelwch sy'n gymwys i'r Defnydd o'r dechnoleg a'r dewisiadau amgen a ystyriwyd ond y tybiwyd eu bod yn llai ymarferol i gyflawni'r diben plismona.</p> <p>Mae'r awdurdod ysgrifenedig hefyd yn nodi'r trefniadau sydd wedi'u gwneud er mwyn rheoli'r broses o gadw a/neu waredu unrhyw ddata personol a gafwyd o ganlyniad i Ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw.</p> <p>Rhaid i'r gymeradwyaeth ysgrifenedig gael ei chadw yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI) a deddfau neu bolisiau perthnasol eraill a'i darparu i'w harchwilio a'i hadolygu gan gorff annibynnol yn ôl y gofyn.</p>
Cofnod Defnyddio'r Rhaglen	Mae'n cofnodi manylion am ble a phryd y Defnyddiwyd y dechnoleg, pa adnoddau a ddefnyddiwyd, ystadegau perthnasol, canlyniadau a chrynodeb o unrhyw broblemau.
Asesiadau	<p>Mae'r rhain yn cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Asesiad cyffredinol o'r Effaith ar Ddiogelu Data a Hunanasesiad y Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth.</p> <p>Rhaid i'r dogfennau hyn gael eu hystyried gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau wrth awduro defnydd o'r Dechnoleg er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i ymdrin â'r materion sy'n codi o'r Defnydd arfaethedig o'r dechnoleg.</p> <p>Rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau sicrhau bod materion wedi cael eu nodi a'u dogfennu'n briodol a'u bod wedi cael eu lliniaru drwy fesurau diogelwch er mwyn sicrhau bod y Defnydd o'r dechnoleg yn gymesur â'r diben plismona yn ogystal â bod yn angenrheidiol.</p>
Logiau Defnydd	Logiau a gwblheir wrth gynllunio'r Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau a'i roi ar waith Er enghraifft, logiau a gwblheir gan Gomandariaid Aur ac Arian, Gweithredwr Technoleg Adnabod

	Wynebau Byw a Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw.
--	--

6.8 Mae nifer o ddogfennau penodol eraill Heddlu De Cymru sy'n ymwneud â phob Defnydd a wneir o'r dechnoleg gan Heddlu De Cymru wedi'u cwblhau'n ganolog. Nodir y rhain isod:-

Dogfennau a Chofnodion Heddlu De Cymru sy'n ymwneud yn benodol â thechnoleg adnabod wynebau byw.	
Prosesu Data gan Heddlu De Cymru – Dogfennau Polisi Priodol	Polisi Heddlu De Cymru ar brosesu data yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data sy'n ymwneud â thechnoleg adnabod wynebau byw.
Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru	Mae'n nodi'r ystyriaethau cyfreithiol y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn defnyddio technoleg adnabod wynebau byw.
Deunyddiau Hyfforddi Heddlu De Cymru	Mae'n darparu'r hyfforddiant angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud ag awdurdodi a defnyddio yn gyfarwydd â'r ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd cyfreithlon, moesegol a phriodol ohoni ac yn eu rhoi ar waith.

Y Defnydd Gweithredol o'r Dechnoleg

- 6.9 Rhaid gwneud trefniadau i gofnodi'n gywir y dyddiadau, yr amseroedd a'r lleoliad pan ddefnyddir y dechnoleg.
- 6.10 Rhaid i'r Comander Arian sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud er mwyn adolygu'r defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebau byw yn rheolaidd tra bydd yn cael ei ddefnyddio. Rhaid i'r Comander Arian fod yn fodlon:-
- bod y defnydd o'r dechnoleg yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur at y dibenion plismona a nodir yn y Ddogfen Awdurdod Ysgrifenedig;
 - bod y mesurau diogelwch yn y gymeradwyaeth ysgrifenedig yn dal i fod yn effeithiol;
 - bod lefel y cymorth swyddogion sydd wedi'i neilltuo i ddefnyddio'r dechnoleg yn golygu bod modd ymateb i Rybuddion yn effeithiol;
 - bod y Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a'r Ffactorau Amgylcheddol yn golygu bod y defnydd o'r rhaglen adnabod wynebau byw yn dal i fod yn effeithiol er mwyn cyflawni'r diben plismona a nodir yn y gymeradwyaeth ysgrifenedig.
- 6.11 Efallai y bydd amgylchiadau yn codi sy'n golygu bod angen rhoi'r gorau i ddefnyddio'r dechnoleg neu ohirio ei defnyddio. Gall enghreifftiau gynnwys dim digon o bobl yn mynd heibio i'r system adnabod wynebau byw neu amodau goleuo gwael. Rhaid i'r Comander Arian fod wedi'i rymuso a meddu ar y disgresiwn llwyr i atal y defnydd o'r dechnoleg dros dro neu ei derfynu. Rhoddir rhagor o fanylion yn y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw.

6.12 Sut bynnag, rhaid i'r Comander Arian gynnal a chofnodi adolygiad o'r gweithgarwch yn rheolaidd tra bydd y dechnoleg yn cael ei defnyddio. Pennir amseriad ac amlder adolygiadau gan y Comander Arian. Dylid pennu cyfnod addas yng nghyd-destun y defnydd a wneir o'r dechnoleg. Dylai'r adolygiad hwn ymdrin â chyfreithlondeb, rheidrwydd a chymesuredd parhaus y defnydd a wneir o'r dechnoleg, yn ogystal â rhoi rhywfaint o ddadansoddiad o berfformiad y rhaglen adnabod wynebaw byw a'r Ymgysylltiadau a gynhelir.

Ar ôl Defnyddio'r Dechnoleg

6.13 Ar ôl i'r Defnydd o'r dechnoleg ddod i ben, dylai fod yn destun sesiwn ôl-drafod ac adolygiad. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Defnydd a wneir o'r dechnoleg yn y dyfodol yn adlewyrchu'r hyn a ddysgir bob tro y Defnyddir y dechnoleg a bod y defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn parhau i fod yn adnodd plismona effeithiol a chymesur. Dylai strwythur a ffurf pob adolygiad geisio sicrhau rhywfaint o annibyniaeth ar y Comander Aur ac ymdrin ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Defnydd a wneir o'r dechnoleg.

6.14 Dylai'r awdurdod i ddefnyddio'r dechnoleg bob amser gael ei ganslo pan na fydd ei hangen mwyach. Cyflwynir Cofnod Defnyddio'r Rhaglen i'r Swyddog Awdurdodi (efallai mai'r un person â'r Comander Arian fydd hwn) er mwyn sicrhau y cynhelir goruchwyliaeth briodol gan uwchswyddog. Fel arfer, dylid llunio a chyflwyno adroddiadau o'r fath o fewn 31 diwrnod.

6.15 Rhaid i ganlyniad defnyddio'r dechnoleg fod yn destun gwerthusiad a ddylai, yn ei dro, fwydo i mewn i'r prosesau goruchwyllo a chraffu.

6.16 Ar ôl defnyddio'r dechnoleg, rhaid i Heddlu De Cymru sicrhau bod unrhyw ddata personol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen adnabod wynebaw byw yn cael eu prosesu mewn ffordd gyfreithlon yn unol â dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebaw byw. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:-

- a) os na fydd y system Technoleg Adnabod Wynebaw Byw yn cynhyrchu Rhybudd, caiff data biometrig unigolyn eu dileu'n awtomatig ar unwaith;
- b) caiff y data a ddelir ar y cof bach USB wedi'i amgryptio a ddefnyddir i fewnforio'r Rhestr Wyllo eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg.

6.17 Os bydd y system adnabod wynebaw byw yn cynhyrchu Rhybudd, caiff yr holl ddata personol eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl i'r Defnydd ddod i ben.

6.18 Caiff yr holl ddeunydd teledu cylch cyfyng o'r Defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw ei ddileu o fewn 31 diwrnod, ac eithrio pan y'i cedwir:-

- a) yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu a Deddf Gweithdrefn ac

Ymchwiliadau Troseddol 1996; a/neu

- b) yn unol â pholisïau cwynion/ymchwilio i ymddygiad Heddlu De Cymru

7. Cyrff Goruchwylio a'r Fframwaith Rheoleiddio

- 7.1 Yn Heddlu De Cymru, yr uwch-gorff goruchwylio mewnol ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw yw Bwrdd Rhaglen Technoleg Adnabod Wynebau Byw a Biometreg Heddlu De Cymru sydd, yn ei dro, yn atebol i Fwrdd Aur yr Is-adran Gwasanaethau Digidol. At hynny, mae swyddfa Comisiynydd Heddlu De Cymru hefyd yn darparu safbwynt goruchwylio a chraffu allanol.
- 7.2 Mae Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnydd Heddlu De Cymru o'r dechnoleg, tra bod Dogfen Bolisi Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw a Gweithdrefn Weithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw yn cefnogi'r gwaith o'i rhoi ar waith.
- 7.3 Yn genedlaethol, mae 'Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu' yn goruchwylio'r defnydd gweithredol o dechnoleg adnabod wynebau o fewn Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith yn y DU.
- 7.4 Gall cyfleoedd goruchwylio pellach godi mewn perthynas â'r 'Cyd-fwrdd Strategol Cenedlaethol ar gyfer Biometreg'. Cydgadeirir y bwrdd gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ac Adran Data a Hunaniaeth y Swyddfa Gartref ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth a'r Comisiynydd Biometreg. Rhagor o fanylion ar y rolau hyn:-

a) Y Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth; Rôl y Comisiynydd Camerâu

Gwylidwriaeth yw annog cydymffurfiaeth â'r cod ymarfer ar gyfer camerâu gwylidwriaeth, monitro sut mae'r cod yn gweithio a rhoi cyngor i weinidogion ynghylch a oes angen diwygio'r cod ai peidio.

Bydd angen i unrhyw system adnabod wynebau byw sydd gan Heddlu De Cymru gydymffurfio â'r Cod hwn a'r 12 o egwyddorion arweiniol. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn ceisio cymhwyso'r egwyddorion hynny.

Ewch i www.gov.uk/government/organisations/surveillance-camera-commissioner;

b) Y Comisiynydd Biometreg; Mae'r Comisiynydd yn annibynnol ar y Llywodraeth a'i rôl yw adolygu'r ffordd y mae'r heddlu yn defnyddio ac yn cadw data biometrig yn rheolaidd. Mae'r Comisiynydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau gan yr heddlu i gadw proffiliau DNA ac olion bysedd ac yn adolygu penderfyniadau ynghylch diogelwch gwladol a wneir neu a adnewyddir gan yr Heddlu mewn cysylltiad â chadw proffiliau DNA ac olion bysedd. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Cartref ar y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau.

Gweler: www.gov.uk/government/organisations/biometrics-commissioner;

c) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal hawliau i wybodaeth er budd y cyhoedd, gan sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd agored a phreifatrwydd data ar gyfer unigolion.

Rhaid i'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data gydymffurfio ag Adrannau 35 – 40, (Egwyddorion 1 – 6) ac Adran 64 o Ddeddf Diogelu Data 2018 a dylid ei rannu â Swyddfa'r Comisiynydd Data.

Ewch i www.gov.uk/government/organisations/information-commissioners-office.

8. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

- 8.1 Rhaid i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd gael ei gefnogi gan y defnydd o adnoddau ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd, a ddylai gael eu hategu gan strategaeth y wasg a'r cyfyngau sy'n rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r bwriad i ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw. Ar y safle lle y defnyddir y dechnoleg neu'n agos ato, dylid dosbarthu hysbysiadau sy'n darparu gwybodaeth, gan gynnwys manylion yr Hysbysiad Preifatrwydd, a dylid ceisio adborth drwy e-bost.
- 8.2 Dylai sesiynau briffio gweithredol a ddarperir i swyddogion a rhanddeiliaid cyn defnyddio'r dechnoleg hyrwyddo bod yn agored â'r cyhoedd a dylent fod yn dryloyw ynghylch y defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebaw byw. Dylid annog swyddogion i ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae technoleg adnabod wynebaw byw yn gweithio i gadw'r cyhoedd yn ddiogel a'r ffordd y mae'n helpu i ddod â throseddwy'r gerbron y llys. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i swyddogion fod â hysbysiadau yn eu meddiant y gellir eu dosbarthu i'r cyhoedd. Dylai hysbysiadau o'r fath gyfleu negeseuon allweddol pwysig sydd â'r nod o ennyn ymddiriedaeth a hyder drwy wella dealltwriaeth.
- 8.3 Gellir gwahodd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, i arsylwi ar y broses o gynllunio a defnyddio'r rhaglen adnabod wynebaw byw.

Cyn Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebaw Byw

- 8.4 Cyn defnyddio'r dechnoleg sicrhewch:-
 - a) bod y cyhoedd yn cael ei hysbysu am y bwriad i ddefnyddio'r dechnoleg gan ddefnyddio gwefan Heddlu De Cymru a sianeli cyfathrebu priodol eraill (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol);
 - b) bod hysbysiadau a thafleuni am dechnoleg adnabod wynebaw byw yn cael eu paratoi er mwyn cefnogi'r defnydd o'r dechnoleg;
 - c) bod llenyddiaeth yn cael ei pharatoi i bobl y mae'n bosibl yr Ymgysylltir â nhw (a fydd yn cynnwys gwybodaeth a amlinellir mewn hysbysiad preifatrwydd);
 - d) bod swyddogion yn cael eu briffio am eu pwerau a chyfyngiadau'r pwerau hynny. Yn benodol, rhaid nodi'n glir nad oes unrhyw bŵer i fynnu cydweithrediad unigolyn o ran tynnu llun ohono, oni chyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer arestio, neu oni bai bod Arolygydd neu swyddog lefel uwch wedi awdurdodi arfer y pŵer o dan adran 60AA o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i Gwnstabl mewn lifrai orfodi unigolyn i dynnu unrhyw beth sy'n cuddio pwy ydyw;
 - e) bod ymgysylltiad allanol yn cael ei ystyried gan drafod â thîm technoleg adnabod wynebaw byw Heddlu De Cymru. Gall fod yn briodol manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrrff ymgynghori neu adolygu moesegol cyhoeddus. Mae'n bwysig bod gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei gydgyssylltu ac, felly, rhaid ymgynghori â'r tîm technoleg adnabod wynebaw byw cyn ymgymryd â gweithgarwch o'r fath.

Tra bydd y Dechnoleg yn cael ei Defnyddio

8.5 Tra bydd y dechnoleg yn cael ei Defnyddio sicrhewch fod:-

- a) arwyddion yn cael eu harddangos yn glir mewn manau amlwg y tu hwnt i gwrtil y Parth Adnabod ar gyfer camerâu adnabod wynebau byw er mwyn datgan bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio a rhoi manylion am y ffordd y gall y cyhoedd gael rhagor o wybodaeth;
- b) hysbysiadau ag esboniad byr a chyfeiriadau at wefan Heddlu De Cymru ar gael i'w dosbarthu i'r cyhoedd os gofynnir amdanynt;
- c) gwybodaeth yn cael ei rhoi i unigolion y mae Swyddogion yn ymgysylltu â nhw yn unol â'r polisi y cyfeiriwyd ato uchod.

Ar ôl Defnyddio'r Dechnoleg

8.6 Ar ôl defnyddio'r dechnoleg sicrhewch fod:-

- a) gwybodaeth am y Defnydd o'r dechnoleg, gan gynnwys y lleoliad, yr amser, y dyddiad, nifer y Rhybuddion, ymgysylltiadau, arestiadau ac unrhyw wybodaeth yr ystyrir ei bod yn ddefnyddiol ac yn addas i'w datgelu, yn cael ei chyhoeddi ar wefan Heddlu De Cymru. Rhaid sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei chyhoeddi;
- b) bod ymgysylltiad allanol yn cael ei ystyried gan drafod â thîm technoleg adnabod wynebau byw Heddlu De Cymru. Unwaith eto, gall fod yn briodol manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrrff ymgynghori neu adolygu moesegol cyhoeddus. Mae'n bwysig bod gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei gydgyfylltu ac, felly, rhaid ymgynghori â'r tîm technoleg adnabod wynebau byw cyn ymgymryd â gweithgarwch o'r fath.

9. Ystyriaethau o ran y Rhestr Wyllo

Ansawdd Delweddau

- 9.1 Mae perfformiad y system adnabod wynebaw byw yn dibynnu'n fawr ar ansawdd y delweddau ar y Rhestr Wyllo. Y delweddau gorau yw lluniau a dynnwyd yn y ddalfa neu rai sy'n debyg i lun pasbort sy'n cydymffurfio â'r 'Police Standard for Still Digital Image Capture and Data Interchange of facial/Mugshot and Scar, Mark & Tattoo Images (full frontal face, neutral expression, uniform lighting and plain background)' a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona (NPIA). Ceir rhagor o fanylion yn y ddogfen PDF ymgorfforedig:



Llun Llonydd Safonol NPIA
Delweddau Digidol.pdf

- 9.2 Os bydd sawl delwedd o destun ar gael, dylid ystyried eu cynnwys ar y Rhestr Wyllo os nodir y byddant yn cynyddu'r tebygolrwydd y deuir o hyd i'r rhai sydd o ddiddordeb i Heddlu De Cymru.

Llunio'r Rhestr Wyllo

- 9.3 Mae Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru yn darparu sylwebaeth ar yr ystyriaethau cyfreithiol sy'n berthnasol wrth lunio Rhestr Wyllo mewn ffordd gyfreithlon. Golyga hyn ein bod yn sicrhau ein bod yn dal y delweddau ar Restr Wyllo yn gyfreithlon, ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur eu cynnwys a'i bod yn cyflawni'r dibenion plismona a nodwyd.
- 9.4 Mae pwyntiau allweddol yn cynnwys sicrhau bod y Rhestr Wyllo wedi'i chyfyngu i'r maint sydd ei angen i gyflawni'r dibenion plismona a nodwyd a chymryd camau rhesymol i sicrhau y dylai'r ddelwedd a ddefnyddir adnabod yr unigolyn sy'n cael ei ystyried i'w gynnwys ar y Rhestr Wyllo yn gywir. Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebaw byw yn rhoi canllawiau ymarferol at sut i ddilyn Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebaw byw, gan gynnwys Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru.
- 9.5 Mae maint y Rhestr Wyllo yn berthnasol i lefel yr adnoddau a ddylai fod ar gael pan ddefnyddir y dechnoleg. Rhaid i ddigon o adnoddau fod ar gael i reoli'r Rhybuddion a gynhyrchir gan y rhaglen adnabod wynebaw byw.

- 9.6 Fel yr esboniwyd yn adran 3 (Trosolwg o Dechnoleg Adnabod Wynebaw Byw), fel arfer mae Rhestrau Gwyllo ond yn cynnwys unigolion yr amheuir eu bod yn agos i ardal ac, felly, lle mae rhywfaint o bosiblwydd neu debygolrwydd y bydd unigolyn yn mynd heibio i system adnabod wynebaw byw. Bydd pa mor fawr y mae angen i'r tebygolrwydd hwnnw fod yn amrywio rhwng achosion dros gynnwys delweddau ond, sut bynnag, dylid ei ystyried yn erbyn sawl ffactor. Golyga hyn y gall Swyddog Awdurdodi ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur awdurdodi cynnwys pobl y mae Heddlu De Cymru yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau difrifol megis llofruddiaeth, treisio, herwgipio, niwed corfforol difrifol (ac ati) ar Restr Wyllo, er ei bod yn bosibl nad oes cudd-wybodaeth benodol i ddweud ble yn ardal Heddlu De Cymru y gellid dod o hyd iddynt. Mae rhai o'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys:-
- a) Difrifoldeb y drosedd dan sylw; bydd hyn yn aml yn gysylltiedig â faint o frys sy'n gysylltiedig â dod o hyd i unigolyn a'i arestio. Mae llawer o unigolion yn newid eu hymddygiad, gan gynnwys y lleoedd y maent yn byw ynddynt ac yn eu mynychu pan fyddant yn gwybod bod yr heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throsedd ddifrifol;
 - b) Risg; Faint o risg sy'n gysylltiedig ag unigolyn, p'un a yw'r risg honno i'r cyhoedd neu iddo'i hun;
 - c) Y lleoliad lle y defnyddir y dechnoleg; gall nodweddion penodol y lleoliad lle y defnyddir y dechnoleg gynyddu'r posiblwydd neu'r tebygolrwydd y bydd unigolion yn mynd drwyddo. Mae gan ardaloedd o amgylch canolfannau trafndiaeth lawer o bobl sy'n teithio o le i le.

Rheoli'r Rhestr Wyllo

- 9.7 Diogelir y systemau a ddefnyddir i lunio'r Restr Wyllo gan fesurau rheoli mynediad rôl-benodol, ac mae'r rhai sy'n eu defnyddio yn cael hyfforddiant rôl-benodol. Mae hyn yn cynnwys ymglyfarwyddo ag egwyddorion diogelu data.
- 9.8 Mae Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebaw byw yn darparu mesurau er mwyn sicrhau y caiff y Rhestr Wyllo ei llunio'n gyfreithlon, ei bod yn gyfredol, na chaiff ei chadw pan na fydd ei hangen mwyach ac mai dim ond at ei diben adnabod wynebaw byw y caiff ei defnyddio.

Mynd i'r Afael ag Anghymesuredd

- 9.9 Nid yw Heddlu De Cymru yn cynnal nac yn cadw dadansoddiad o hil, rhyw nac unrhyw nodwedd warchoddedig arall² sydd gan unigolion ar Restr Wyllo. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull gweithredu a fabwysiedir ar gyfer y mwyafrif o'r adnoddau plismona a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru. Yr eithriad yma yw bod darpariaeth ar gyfer cynnwys pobl ifanc o dan 18 oed a phlant o dan 13 oed fel y nodwyd yn flaenorol.
- 9.10 Mae'r Defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn cael ei lywio gan flaenoriaethau plismona Heddlu De Cymru ac asesiadau sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth, y mae'r ddau ohonynt yn pennu'r lleoliad a'r diben plismona. Wedyn, y lleoliad a'r diben plismona sy'n pennu cyfansoddiad y Rhestr Wyllo. Mae'r unigolion a geir ar Restr Wyllo ar y rhestr am fod angen

² Fel y'i diffinnir yn Adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

plismona i ddod o hyd iddynt a bod yr angen hwnnw yn cyd-fynd â'r diben plismona sy'n llywio'r Defnydd a wneir o'r dechnoleg.

- 9.11 Byddai cadw data sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig fel mater o drefn yn golygu bod Heddlu De Cymru yn dal ac yn prosesu data mewn amgylchiadau pan nad oes ganddo angen plismona i wneud hynny. Yn y bôn, ni fyddai dal y data yn newid yr achos cudd-wybodath na'r angen plismona i ddod o hyd i unigolion a roddid ar Restr Wyllo.
- 9.12 Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod bod angen sicrhau nad yw'r systemau na'r prosesau y mae'n dibynnu arnynt yn cynnwys tuedd gynhenid ac, yn y cyd-destun hwn, nad ydynt yn rhoi unigolion o dan anfantais yn seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig. Cynhelir profion rheolaidd gan ddefnyddio swyddogion yr heddlu a staff sy'n wirfoddolwyr a gaiff eu 'hadu' i mewn i 'Rhestr Wyllo Las'. Mae'r gwirfoddolwyr yn cerdded drwy'r Parth Adnabod pan ddechreu'r defnyddio'r system adnabod wynebau byw er mwyn cyfrif nifer y troeon y mae'r unigolion hynny yn y Parth Adnabod yn erbyn nifer y Rhybuddion a gynhyrchir.
- 9.13 Mae Heddlu De Cymru hefyd yn cynnal profion tegwch academiaidd ar y system adnabod wynebau byw pan fo angen Pennir rheidrwydd ac amllder gan ffactorau a allai effeithio ar berfformiad, gan gynnwys cyflwyno cyfarpar, meddalwedd neu algorithmau newydd a gwell.
- 9.14 Pan gynhelir profion tegwch, ni chaiff unrhyw ddata biometrig sy'n perthyn i aelodau o'r cyhoedd eu cadw at ddibenion y profion. Fel rhan o'r profion hyn, mae gweithredwr dynol yn monitro ac yn cofnodi rhyw, ethnigrwydd ac oedran canfyddedig pobl sy'n mynd drwy'r Parth Adnabod tra bydd system adnabod wynebau byw yn cael ei defnyddio ac unrhyw nodweddion gwarchoddedig perthnasol canfyddedig sydd ganddynt.
- 9.15 Mae gan Heddlu De Cymru nifer o fesurau i sicrhau na fydd ffactor sy'n ymwneud â'r System (tuedd system) yn effeithio ar y ffordd y caiff Rhybuddion eu cynhyrchu. Er enghraifft, ei bod yn fwy tebygol o gynhyrchu Rhybuddion Anwir mewn perthynas ag unigolion sy'n rhannu'r un ethnigrwydd neu rywedd canfyddedig. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:-
- a) bod y rhai sy'n ymwneud â defnyddio system adnabod wynebau byw yn monitro Rhybuddion, Ffactorau sy'n ymwneud â Thestun, Ffactorau sy'n ymwneud â'r System a Ffactorau Amgylcheddol tra bydd y system yn cael ei defnyddio. Os bydd pryderon yn codi nad yw'r system yn perfformio'n gywir, bydd y Comander Arian yn rhoi terfyn ar ei defnyddio lle y bo angen;
 - b) er mwyn hwyluso adolygiadau ar ôl i'r dechnoleg gael ei defnyddio, fod Rhybuddion yn cael eu cadw am hyd at 24 awr. Mae'n rhoi cyfle arall i ystyried y Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y Ffactorau sy'n ymwneud â'r System a'r Ffactorau Amgylcheddol, dibynadwyedd Rhybuddion ac effeithiolrwydd y mesurau diogelwch sydd ar waith pan ddefnyddir y dechnoleg, gan gynnwys yr adolygiadau a gynhelir gan y Comander Arian a'r Comander Aur ar ôl defnyddio'r dechnoleg;
 - c) os bydd adolygiadau a gynhelir ar ôl defnyddio'r dechnoleg yn nodi maes sy'n achosi pryder, gall Heddlu De Cymru gynnal rhagor o brofion tegwch os ymddengys fod angen gwneud hynny.

10. Canllawiau Dylunio ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw

- 10.1 Cyhoeddwyd safon ryngwladol newydd (ISO IEC 30137-1: 'Use of biometrics with video surveillance systems, Part 1: System design and specification') ym mis Mai 2019. Ewch i www.iso.org/standard/64935.html.
- 10.2 Mae ISO IEC 30137-1 yn rhoi manylion ychwanegol am agweddau technegol ar bennu a gweithredu system adnabod wynebau i'w defnyddio gyda camerâu fideo, gan gynnwys dewis a lleoli camerâu, addasu Trothwyon canfod a pharu, rheoli Rhestrau Gwyllo a rôl y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw. Argymhellir yn gryf y dylai heddluoedd sy'n defnyddio technoleg adnabod wynebau byw ddefnyddio'r canllawiau i ategu'r trosolwg technegol a ddarperir yma. Mae Heddlu De Cymru wedi gwneud hyn.
- 10.3 Mae prosesau a chanllawiau cysylltiedig Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw wedi'u datblygu er mwyn darparu ar gyfer ffordd ddibynadwy o ddod o hyd i unigolion gan ddefnyddio'r dechnoleg â camerâu teledu cylch cyfyng eglur iawn (2MP ac yn uwch). Er mwyn i system adnabod gyflawni'r canlyniadau dymunol, mae angen i bob elfen gael ei hoptimeiddio a rhyngweithredu'n gywir. Mae'r elfennau hyn o system yn cynnwys y galedwedd, y feddalwedd, y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw ac adnoddau plismona cysylltiedig ar lawr gwlad.
- 10.4 Bydd i system sy'n defnyddio technoleg adnabod wynebau byw lawer o elfennau. Nid ystyrir yr elfennau hynny nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r defnydd llwyddiannus o dechnoleg adnabod wynebau byw.
Mae elfennau uniongyrchol berthnasol yn cynnwys:-
- a) y Camerâu, gan gynnwys ceblau a'r ffordd y cânt eu gosod;
 - b) yr amgylchedd lle mae'r camerâu yn gweithredu;
 - c) y gronfa ddata o ddelweddau cyfeirio a metadata cysylltiedig, y cyfeirir atynt yn aml fel y Rhestr Wyllo;
 - d) y feddalwedd adnabod wynebau sy'n canfod wynebau yn y deunydd fideo, yn troi'r delweddau o wynebau yn Dimpledi, yn cymharu'r rhain â delweddau ar y Rhestr Wyllo ac yn rhoi gwybodaeth am ganlyniadau'r broses gymharu (fel arfer ar ffurf Rhybudd neu sgôr rifiadol) i'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw;
 - e) y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw a'r Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw sy'n asesu Rhybuddion ac penderfynu ar y camau priodol i'w cymryd;
 - f) bod digon o adnoddau swyddogion ar gael i gefnogi'r Defnydd o'r dechnoleg.

11. Camerâu a Gosod Camerâu

- 11.1 Rhaid dewis camerâu er mwyn i eglurder y ddelwedd, y gyfradd fframiau, y maes gwelediad a pherfformiad golau lefel isel ddarparu delweddau o ansawdd digonol i'w defnyddio yn y rhaglen adnabod wyneb. Fel arfer, mae angen delwedd o wyneb â rhwng 20 a 100 picsele rhwng canol llygaid y testun (Pellter rhwng y Llygaid (IED)) ar systemau adnabod wyneb presennol. Dylai gwerthwr y system adnabod wyneb roi cyngor ar ofynion penodol ar gyfer ei system.
- 11.2 Oni bai bod yr amgylchedd yn cael ei reoli'n dda, rhaid i gamerâu allu gweithredu ag Ystod Ddynamig Eang er mwyn cynhyrchu delweddau o safon uchel o dan amrywiaeth o amodau goleuo.
- 11.3 Yn ddelfrydol, dylid gosod camerâu er mwyn recordio wyneb mor agos â phosibl i'r cyflwr 'face-on', yn debyg i lun pasbort. Er mwyn gwneud hyn, fel arfer mae'n rhaid i'r camerâu fod yn llawer is nag sy'n arferol yn achos systemau teledu cylch cyfyng presennol. Mae hefyd angen ystyried y gofyniad i edrych ar draws torf fawr o bobl sy'n symud.
- 11.4 Yn ddelfrydol, dylid rheoli'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod pob wyneb yn cael ei oleuo i'r un graddau. Dylid osgoi golau tra chyfeiriadol, er enghraifft golau cryf yr haul, lle y gallai fod angen ystyried sut y bydd y golau yn newid yn ystod y dydd.
- 11.5 Yn gyffredinol, bydd y Parth Adnabod yn llai na maes gwelediad y camera; er enghraifft, efallai na fydd pob wyneb yn y maes gwelediad mewn ffocws ac ni fydd pob wyneb yn y maes gwelediad yn cael ei ddelweddu â'r Pellter gofynnol rhwng y Llygaid.
- 11.6 Bydd camera 2MP nodweddiadol yn darparu digon o eglurder er mwyn i system adnabod wyneb byw allu gweithio ar hyd at 3 i 4 o unigolion ochr yn ochr â'i gilydd. Felly, mae angen ystyried lleoliad camerâu a'r amgylchedd ffisegol. Er enghraifft, chwilio am gyfleoedd i sianeli pobl neu gyfyngu ar symudiadau pobl drwy'r Parth Adnabod. Fodd bynnag, os caiff y llif ei leihau islaw lefel benodol, efallai y caiff unigolion eu grwpio'n agos iawn at ei gilydd, gan guddio wyneb pobl yn gyfan gwbl neu'n rhannol (pobl y tu ôl i bobl).
- 11.8 Mae canfod a phrosesu wyneb yn dasg ddwys i system gyfrifiadurol. Dylai'r cyflenwr meddalwedd adnabod wyneb byw roi cyngor ar y gofynion o ran caledwedd a nifer y wyneb y gellir eu prosesu ar yr un pryd o'r tu mewn i un ffrâm. Os caiff y system ei gosod i brosesu gormod o wyneb, gallai hyn arwain at oedi cyn i'r system adnabod wyneb byw ymateb. Gallai hefyd olygu bod Rhybuddion yn cael eu colli o ganlyniad 'i ollwng fframiau' lle mae'r feddalwedd yn neidio dros rywfaent o'r deunydd fideo er mwyn ceisio dal i fyny.

12. Metrigau Perfformiad Allweddol

- 12.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â rhai o'r metrigau perfformiad allweddol y dylid eu casglu wrth ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw. Mae'n amlinellu'r gofynion sylfaenol ac, felly, mae'n ddigon posibl y bydd metrigau neu ddangosyddion ychwanegol yn berthnasol ac yn addas i'w coladu a'u dadansoddi. Mae dau fetrig allweddol sy'n pennu 'cywirdeb' system adnabod wynebau byw. Nodir y rhain yn y paragraffau isod.

Cyfradd Adnabod Gwirioneddol

- 12.2 Nifer y troeon y gwyddys bod unigolion ar Restr Wyllo wedi mynd drwy'r Parth Adnabod a bod y system adnabod wynebau byw wedi cynhyrchu rhybudd yn gywir, fel cyfran o gyfanswm nifer y troeon yr aeth yr unigolion hyn drwy'r parth adnabod (p'un a gynhyrchwyd rhybudd ai peidio).
- 12.3 Dim ond drwy 'hadu' unigolion hysbys (er enghraifft swyddogion neu staff yr heddlu) ar Restr Wyllo Las a mesur nifer y troeon y mae'r unigolion hyn yn bresennol yn y Parth Adnabod yn erbyn nifer y Rhybuddion a gynhyrchir y gellir cynhyrchu'r metrig hwn. Ni ddylai defnyddwyr (na gwerthwyr) systemau adnabod wynebau ganolbwyntio mor fanwl ar wneud y defnydd mwyaf posibl o'r metrig hwn, gan y gallent gynyddu'r Gyfradd Rhybuddion Anwir i lefelau amhriodol.

Cyfradd Rhybuddion Anwir

- 12.4 Mae dau ddull o fesur y Gyfradd Rhybuddion Anwir. Y cyntaf yw Cyfradd Rhybuddion Anwir y System, sef nifer y Rhybuddion Anwir a gynhyrchir fel cyfran o gyfanswm yr unigolion a gaiff eu prosesu gan y rhaglen adnabod wynebau byw. Yr ail yw'r Gyfradd Rhybuddion Anwir Weithredol, a gyfrifir yn yr un ffordd, ond a gaiff ei mesur ar ôl i'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw adolygu allbwn y rhaglen adnabod wynebau byw a diystyru'r Rhybuddion Anwir a gynhyrchwyd gan y rhaglen adnabod wynebau byw yr asesodd y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw eu bod yn anwir.
- 12.5 Dylid cofnodi pob un o fetrigau'r Gyfradd Adnabod Gwirioneddol a'r Gyfradd Rhybuddion Anwir ac adrodd arnynt. Mae profiad gweithredol hyd yma yn awgrymu, yn y rhan fwyaf o senarios, y dylai'r Gyfradd Adnabod Gwirioneddol gyfateb i 0.1% neu lai (h.y. llai nag un mewn 1000). Dylid nodi bod nifer yr unigolion a brosesir gan y rhaglen adnabod wynebau byw ac, i raddau llai, faint y Rhestr Wyllo yn cael effaith fawr ar y Gyfradd Rhybuddion Anwir. Mae hwn yn rheswm allweddol pam mae angen cadw nifer y bobl ar y Rhestr Wyllo mor isel â phosibl gan sicrhau, ar yr un pryd, fod amcanion gweithredol yn dal i gael eu cyflawni.
- 12.6 Dylid hefyd nodi y caiff y Trothwy cyfluniadwy (lle y bydd dwy ddelwedd sy'n cael eu cymharu yn cynhyrchu Rhybudd) yn cael effaith uniongyrchol ar y Gyfradd Adnabod Gwirioneddol a'r Gyfradd Rhybuddion Anwir. Mae angen gosod y trothwy yn ofalus er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ddychwelyd Cyfatebiadau Posibl cywir wrth gadw'r Gyfradd Rhybuddion Anwir ar lefel dderbyniol.

Amser Adnabod

- 12.7 Trydydd metrig pwysig yw'r Amser Adnabod. Noder bod yr amser a gymerir mewn gwirionedd i weithredu ar Rybudd bob amser yn hwy na'r Amser Adnabod gan fod angen amser ychwanegol er mwyn i'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wyneb Bau Byw asesu'r Rhybudd a'i drosglwyddo i Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wyneb Bau Byw er mwyn iddo benderfynu'n derfynol a ddylid Ymgysylltu ai peidio.
- 12.8 Rhaid i'r Amser Adnabod fod yn ddigon byr fel y gellir ymateb yn effeithiol i Rybudd cyn i'r unigolyn dan sylw symud yn rhy bell o'r man lle y cynhyrchwyd y Rhybudd cychwynnol. Bydd camerâu fideo eglur iawn â sawl wyneb ym mhob ffrâm yn gofyn am gryn dipyn o bŵer prosesu er mwyn i'r Amser Adnabod fod yn ddigon cyflym i alluogi ymateb mewn amser real.

13. Crynodeb o'r Canllawiau ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw

- 13.1 Mae a wnelo'r canllawiau hyn â'r defnydd gweithredol o dechnoleg adnabod wynebau byw a'r cyfundrefnau llywodraethu a goruchwylio sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r defnydd o'r dechnoleg.
- 13.2 Argymhellir yn gryf fod swyddogion a staff yn dilyn y canllawiau hyn gan y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y defnydd y mae Heddlu De Cymru yn ei wneud o dechnoleg adnabod wynebau byw yn gwasanaethu'r cyhoedd yn llwyddiannus ac yn gyfreithlon ac, ar yr un pryd, yn darparu'r mesurau diogelwch angenrheidiol. Mae hefyd yn bwysig cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ogystal â'n partneriaid a rhanddeiliaid eraill.
- 13.3 Cydnabyddir ei bod yn bosibl y bydd amgylchiadau lle y gwneir penderfyniad, am resymau dilys, sydd ei angen mewn perthynas â phethau sydd ychydig y tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn. Yn ddiau, bydd y canllawiau hyn yn datblygu wrth i dechnoleg newid a gwella ac wrth i wersi a ddysgwyd ddylanwadu ar yr hyn a ystyrir yn arfer da. Os gwneir penderfyniadau sy'n mynd yn groes i rai agweddau ar y canllawiau hyn, mae'n hanfodol y caiff y penderfyniadau hyn eu dogfennu'n llawn, ynghyd â sail resymegol fanwl a bod y penderfyniadau perthnasol yn cael sylw mewn prosesau ôl-drafod a gwerthuso.

14. Acronymau a ddefnyddir ym maes adnabod wynebau byw

ISO	Sefydliad Safonau Rhyngwladol
USB	Bws Cyfresol Cyffredinol ('Universal Serial Bus' yn Saesneg)